CERDYN SGORIO FFEMINISTAIDD 2022

Tracio camau gweithredu Llywodraeth Cymru i wella hawliau menywod a chydraddoldeb rhywiol

WEN Wales Cymru

OXFAM CYMRU

RHAGAIR

Cyhoeddwyd ein Cerdyn Sgorio blaenorol pan oeddem ar drothwy'r hyn na ellir ond ei ddisgrifio yn gynnwrf byd-eang digynsail ar ffurf pandemig. Roedd hwn yn adeg pan oedd y llwyth gwaith annheg a roddid ar fenywod yn wirioneddol amlwg i bawb ei weld; cyfrifoldeb a luosogodd wrth i fenywod ysgwyddo baich cynyddol yn eu rôl o fod yn brif ofalwyr ein cymdeithas. 'Nawr, ynghanol argyfwng costau byw byd-eang, mae llwyth gwaith menywod unwaith eto yn cynyddu'n beryglus.

I adlewyrchu'r rhwystrau difrifol hyn i gydraddoldeb rhywiol, mae'r sgôr mewn dau faes, Cyllid Teg a Chyfrifoldebau Gofalu, wedi symud o Oren i Goch. Mae rhai addewidion cadarnhaol wedi cael eu gwneud, megis yr ymrwymiad i gwotâu rhywedd ac i gynllun iechyd menywod yng Nghymru. Ond oherwydd y cynnydd cyfyngedig yn gyffredinol, mae'r meysydd eraill yn parhau i gael eu sgorio fel yr oeddent yn 2020. Er gwaethaf y rhethreg, mae gan Gymru dipyn o ffordd i fynd i gyrraedd ei nod o fod y lle mwyaf diogel i fenywod yn Ewrop. Mae diffyg gwelliant yn achos y sefyllfa enbyd a wynebir gan fenywod nad oes ganddynt unrhyw hawl i arian cyhoeddus, ac absenoldeb parhaus model ariannu cynaliadwy ar gyfer gwasanaethau arbenigol ar gyfer trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol (VAWDASV), wedi ein harwain i gynnwys is-sgôr Coch ar gyfer y meysydd hyn.

Mae'r pandemig wedi dangos i ni na ellir rhannu anghydraddoldeb rhwng y rhywiau yn adrannau, a bod yr ychydig gynnydd a wnaethom yn fregus a heb ei wreiddio'n gadarn. Mae Oxfam Cymru a Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod Cymru (RhCM Cymru) yn credu y dylai Llywodraeth Cymru fod wedi dyblu ei hymdrechion o ran gweithredu'r Cynllun Hyrwyddo Cydraddoldeb rhwng y Rhywiau. Yn lle hynny, ar yr union adeg y dylid bod wedi cyflymu gwaith ar gydraddoldeb trawstoriadol rhwng y rhywiau, rhoddwyd y cynllun heibio ac arafodd y cynnydd, ac arweiniodd hyn at ganlyniadau trychinebus i lawer o fenywod yng Nghymru.

Hon yw'r adeg i Lywodraeth Cymru greu rôl Comisiynydd Menywod, a fyddai'n hyrwyddo ac yn gwarchod menywod yng Nghymru, yn yr un modd ag y mae'r Comisiynydd Plant a'r Comisiynydd Pobl Hŷn yn gwneud hynny ar gyfer eu priod etholwyr. Byddai'r rôl yn darparu arweinyddiaeth drawslywodraethol ac yn helpu i gael gwared ar y casineb systemig at fenywod a'r anghydraddoldeb y mae menywod yng Nghymru yn parhau i'w wynebu. Os na fyddwn yn gweithredu nawr, bydd cynnydd mewn cydraddoldeb rhwng y rhywiau wedi mynd ar ddifancoll i genhedlaeth arall o fenywod.

Catherine Fookes
Cyfarwyddwr RhCM Cymru

Sarah Rees
Pennaeth Oxfam Cymru

CYNNWYS

03 CYFLWYNIAD

04 CERDYN SGORIO FFEMINISTAIDD 2020/22

05 CYLLID TEG

09 HAWLIAU MENYWOD BYD-EANG

12 CYFRIFOLDEBAU GOFALU

16 CYNRYCHIOLAETH AC ARWEINYDDIAETH CYFARTAL

19 TERFYNU TRAIS YN ERBYN MENYWOD A MERCHED

21 MYND I'R AFAEL AG ANGHYDRADDOLDEB IECHYD RHYWEDD

26 CYDNABYDDIAETHAU & METHODOLEG

27 YNGHYLCH RHCM CYMRU & OXFAM

CYFLWYNIAD

Dyma'r drydedd fersiwn o Gerdyn Sgorio Ffeministaidd Oxfam Cymru ac RhCM Cymru, sy'n gyfres o gipluniau o berfformiad Llywodraeth Cymru mewn chwe maes allweddol ar gyfer cydraddoldeb menywod yng Nghymru.

Yn dilyn ymlaen o'r cerdyn sgorio diwethaf, a gyhoeddwyd fis Chwefror 2020, ychydig cyn i'r pandemig gyrraedd y DU, mae'r cerdyn sgorio hwn yn cynnwys myfyrdodau a gwersi o'r pandemig, yn ogystal â'r cynnydd a wnaed yn unol â'r Rhaglen Lywodraethu newydd a gyhoeddwyd yn 2021.

Mae'n dangos yn glir bod angen gwneud llawer o hyd fel bod Cymru y lle mwyaf diogel yn Ewrop i fod yn fenyw, ac yn genedl ffeministaidd. Er bod Llywodraeth Cymru wedi gwneud cynnydd mewn rhai meysydd, mewn meysydd eraill mae COVID-19 wedi amlygu'n gwbl eglur yr heriau y mae menywod a merched yn eu hwynebu ac mae wedi gwaethygu anghydraddoldebau, a hynny'n enwedig yn achos menywod â hunaniaethau croestoriadol.

Mae'r cerdyn sgorio yn amlygu meysydd gweithredu brys, yn enwedig o ran Cyllid Teg a Chyfrifoldebau Gofalu, sef dau faes sydd wedi llithro'n ôl o Oren i Goch ers yr adroddiad diwethaf. Er bod y llithro'n ôl hwn yn rhannol yn ganlyniad i effaith y pandemig a'r argyfwng costau byw, cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru yw cymryd camau cyflym a phendant i sicrhau na fydd menywod a merched yng Nghymru yn cael eu dal yn ôl am flynyddoedd lawer i ddod.

Mae'n bwysig nodi bod rhywfaint o'r iaith, y ffocws a'r derminoleg wedi newid o gymharu ag adroddiad 2020. Mae hyn yn adlewyrchu ein dull cydweithredol o ysgrifennu'r adroddiad hwn. Mae'r cynnwys a'r derminoleg allweddol a ddefnyddir yn seiliedig ar fewnbwn gan sefydliadau llawr gwlad a'r cymunedau yr ydym yn gweithio gyda nhw.

CERDYN SGORIO FFEMINISTAIDD 2020/22

Tracio camau gweithredu Llywodraeth Cymru i wella hawliau menywod a chydraddoldeb rhywiol

ALLWEDD SGORIO: GWYRDD = CYNNYDD SYLWEDDOL OREN = PETH CYNNYDD COCH = BRAIDD DIM CYNNYDD

CYLLID TEG

2022: Sgôr – Coch
2020: Sgôr – Oren

Mae rhai camau cadarnhaol, megis gweithio hybrid, wedi cael eu gwneud, ond mae'r cynnydd cyffredinol wedi cael ei ddadwneuthur gan y pandemig a'r argyfwng costau byw. Cynyddodd y bwlch cyflog rhwng y rhywiau, ac mae menywod yn dal yn fwy tebygol o weithio'n rhan-amser neu fod yn economaidd anweithgar. Er bod rhai ffactorau y tu allan i reolaeth Llywodraeth Cymru, mae'n ofynnol gweithredu ar frys.

CYFRIFOLDEBAU GOFALU

2022: Sgôr – Coch
2020: Sgôr – Oren

Mae effaith cyfrifoldebau gofalu anghyfartal wedi taro i'r byw yn ystod y pandemig, a hynny gydag effeithiau trychinebus weithiau ar iechyd meddwl a chyllid menywod. Mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud ymrwymiadau cadarnhaol ynghylch gofal plant a gofal cymdeithasol, ond nid yw cyflymder y gweithredu yn adlewyrchu'r brys ar gyfer newid.

MYND I'R AFAEL AG ANGHYDRADDOLDEB IECHYD RHYWEDD

2022: Sgôr – Coch
2020: Sgôr – Coch

Mae ymrwymiad diweddar Llywodraeth Cymru i gynllun iechyd menywod yn hanfodol gan mai prin yw'r cynnydd sydd wedi cael ei wneud. Er bod yna bellach Uned Mamau a Babanod bwrpasol, a bod llesiant mislifol wedi symud o fod yn ddewisol i fod yn orfodol yn y cwricwlwm newydd, nid yw'r brys o wella iechyd menywod yn cael ei adlewyrchu o hyd mewn polisi na chamau gweithredu.

HAWLIAU MENYWOD BYD-EANG

2020: Sgôr – Oren
2020: Sgôr – Oren

Mae rhaglen gyllido Llywodraeth Cymru oddi ar 2020 wedi cael croeso, ac mae wedi'i thargedu'n briodol i rymuso partneriaid tramor. Fodd bynnag, mae angen gweithredu ar frys i gefnogi ceiswyr lloches a'r rhai y mae newid yn yr hinsawdd yn effeithio arnynt yn fyd-eang fel bod Cymru yn genedl noddfa ac o gydsafiad byd-eang.

CYNRYCHIOLAETH AC ARWEINYDDIAETH CYFARTAL

2020: Sgôr – Oren
2020: Sgôr – Oren

Mae'r ymrwymiad i gwotâu rhywedd yn y Senedd yn gam hollbwysig ymlaen. Mewn llywodraeth leol, mae cynrychiolaeth menywod wedi gwella oddi ar etholiadau 2022, ond mae'n dal ymhell o fod yn gyfartal. Mae'r pandemig wedi arwain at rai newidiadau cadarnhaol mewn arferion gweithio, ond rhaid gwneud llawer mwy i sicrhau bod sefydliadau gwleidyddol Cymru yn llwyr adlewyrchu ei phoblogaeth amrywiol.

TERFYNU TRAIS YN ERBYN MENYWOD A MERCHED

2020: Sgôr – Oren/Coch
2020: Sgôr – Oren

Darparodd Llywodraeth Cymru gyllid brys cyflym yn ystod y pandemig. Ac eto, yn strwythurol, mae angen gwneud llawer i sicrhau bod menywod yn teimlo'n ddiogel yng Nghymru, a bod modd cefnogi'r holl oroeswyr Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV) mewn modd effeithiol. Mae yna angen dybryd am gyllid cynaliadwy ar gyfer gwasanaethau arbenigol, yn enwedig i fenywod nad oes ganddynt unrhyw hawl gyfreithiol i arian cyhoeddus, a gafodd sgôr o goch yn yr adran hon.

CYLLID TEG
SGÔR: COCH

Swyddi a chyflog cyfartal

Mae yna lawer o fwriad cadarnhaol yn Llywodraeth Cymru i sicrhau cyllid teg a chyfartal yng Nghymru. Fodd bynnag, mae angen gwneud llawer o waith i droi'r bwriadau cadarnhaol hyn yn realiti cadarnhaol ym mywydau menywod.

Mae anghydraddoldeb ariannol ymhlith menywod yn parhau i gael ei lywio gan gyfrifoldebau gofalu anghyfartal a gwahanu galwedigaethol. Maent yn parhau i fod yn ffactor allweddol y tu ôl i'r cyfraddau uwch o waith rhan-amser ac anweithgarwch economaidd ymhlith menywod, ac roedd pandemig COVID-19 wedi gwaethygu hyn. Roedd 72% o famau a oedd yn gweithio wedi gweithio llai o oriau ac ennill llai o gyflog yn ystod y cyfyngiadau symud cyntaf, a hynny oherwydd yr angen i ofalu am eu plant a'u haddysgu. Yn 2021, roedd 40.6% o fenywod yn gweithio'n rhan-amser, o gymharu â 13.8% o ddynion. Rhwng mis Mehefin 2020 a mis Gorffennaf 2021, roedd 27.6% o fenywod yn economaidd anweithgar, o gymharu â 21.6% o ddynion. Ehangodd y bwlch cyflog rhwng y rhywiau o 11.8% yn 2020 i 12.3% yn 2021, a hynny oherwydd cynnydd mwy yng nghyflogau fesul awr dynion. Nid yw'r un peth yn wir ar hyd a lled y DU gyfan.

72% *o famau mewn cyflogaeth wedi gweithio llai o oriau ac ennill llai o gyflog yn ystod y cyfyngiadau symud cyntaf, oherwydd addysgu a gofalu am eu plant.*

Yn gyffredinol, mae argyfwng COVID-19 hefyd wedi bod yn argyfwng anghydraddoldeb. Roedd mwy o ddynion ar ffyrlo yn gyffredinol (44% o ddynion o gymharu â 35% o fenywod). Fodd bynnag, roedd menywod 45-54 oed dros ddwywaith yn fwy tebygol o fod wedi lleihau eu horiau oherwydd cyfrifoldebau gofalu. Roedd rhieni fwy na dwywaith yn fwy tebygol o adrodd llai o incwm. Roedd pobl anabl a phobl o gymunedau hil-ddiffiniedig yn fwy tebygol o fod wedi colli oriau gwaith (31% a 48% yn y drefn honno, o gymharu â 23% o'r poblogaethau gwyn, nad ydynt yn anabl). Collodd 18% o fenywod eu swyddi o ganlyniad i fusnesau'n cau, o gymharu â 11% o ddynion, a theimlai 28% o unigolion hil-ddiffiniedig eu bod yn fwy tebygol o gael eu dewis mewn modd annheg ar gyfer ffyrlo o gymharu â 6% o bobl wyn. Mae 37% o blant sy'n byw mewn cartref gyda pherson anabl yn byw mewn tlodi cymharol, o gymharu â 24% o blant mewn cartrefi heb berson anabl. Rhaid i helpu i greu cyfleoedd economaidd cyfartal i fenywod sydd wedi'u hymyleiddio fod yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru.

COLLED ORIAU GWAITH OHERWYDD COVID-19

Pobl anabl 31%

Cymunedau hil-ddiffiniedig 48%

Poblogaeth wyn, nad yw'n anabl 23%

Mae hyblygrwydd cynyddol gweithio o bell/hybrid wedi bod yn gadarnhaol i lawer, ond mae'n bwysig cofio bod yna lawer o swyddi na ellir eu gwneud gartref ac nad yw'n well gan bawb weithio gartref. Yn aml, y rhain yw'r swyddi rheng flaen go iawn lle'r oedd gweithwyr yn y perygl mwyaf yn ystod y pandemig neu lle'r oedd angen i fenywod adael

eu gwaith i ofalu am blant yn ystod y cyfyngiadau symud. Mae gan sectorau rheng flaen megis manwerthu, gofal cymdeithasol a gofal iechyd, a gofal plant ac addysg weithluoedd sy'n fenywod yn bennaf, yn enwedig yn y rolau â chyflogau is. Roedd yn rhaid i famau yn y swyddi hyn jyglo gofynion addysg o bell, yn enwedig yn y cyfyngiadau symud cyntaf pan oedd hybiau ysgolion i weithwyr allweddol yn canolbwyntio ar ofal plant yn hytrach nag addysg. Dywed 61% o weithwyr dosbarth canol eu bod yn dymuno parhau i weithio gartref yn rhannol neu'n llawn, o gymharu â 33% o bobl o gartrefi dosbarth gweithiol. Felly rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau nad yw buddsoddiadau mewn ffyrdd newydd o weithio yn amlygu ffafriaeth anghymesur tuag at grwpiau sydd eisoes yn freintiedig, o gymharu â grwpiau o fenywod sydd wedi'u hymyleiddio.

Mae'r ystadegau uchod a data cyffredinol eraill yn cuddio'r realiti yn achos rhai grwpiau o fenywod. Er enghraifft, mae tystiolaeth anecdotaidd gynnar yn awgrymu bod mwy o gyfleoedd i weithio gartref wedi cael effaith gadarnhaol fach ar gyfraddau cyflogaeth menywod anabl, ond ymddengys bod y gyflogaeth honno, i ddechrau, mewn gwaith ag iddo gyflog isel o hyd. Mae angen llawer mwy o waith i sicrhau cyllid tecach go iawn i fenywod anabl.

MEWN CYFLOGAETH YN 2021 YNG NGHYMRU

Dynion gwyn 75%

Dynion hil-ddiffiniedig 73%

Menywod gwyn 70%

Menywod hil-ddiffiniedig 56%

Mae cyfraddau cyflogaeth ar gyfer dynion a menywod gwyn yn uwch nag ar gyfer dynion a menywod hil-ddiffiniedig, gyda'r ystadegau'n dangos mai menywod hil-ddiffiniedig sydd dan yr anfantais fwyaf. Yn 2021, roedd 75% o ddynion gwyn mewn cyflogaeth, o gymharu â 73% o ddynion hil-ddiffiniedig, a 70% o fenywod gwyn o gymharu â 56% o fenywod hil-ddiffiniedig. Mae menywod o gymunedau hil-ddiffiniedig yn wynebu cyfraddau llawer uwch o ddiweithdra o gymharu â grwpiau eraill o fenywod, ac o gymharu â dynion o'r un cymunedau. Mae angen gwneud mwy i sicrhau bod ymchwil a pholisi seiliedig ar dystiolaeth yn cydnabod ac yn deall profiadau grwpiau gwahanol o fenywod hil-ddiffiniedig, yn ogystal â'r rhai sy'n wynebu gwahaniaethu croestoriadol, er enghraifft ar sail hil-ddiffiniad, anabledd a rhywedd.

Mae menywod traws yn grwp arall o fenywod sy'n debygol o ddioddef o anghydraddoldeb economaidd anghymesur, ond mae diffyg data dybryd yn tanseilio polisïau seiliedig ar dystiolaeth i fynd i'r afael â hyn. Mae adroddiadau blaenorol ar gyfer Iwerddon wedi dangos bod 51% o bobl draws yn ddi-waith yn 2016, ond nid oes gennym ddata penodol ar Gymru nac, yn wir, y DU.

Mae'r ffigurau hyn yn awgrymu bod y darlun cyffredinol ar gyfer menywod yn cuddio'r heriau gwahanol a wynebir gan grwpiau gwahanol o fenywod, yn cynnwys menywod anabl, menywod hil-ddiffiniedig a menywod traws. Rydym yn obeithiol y bydd Unedau Tystiolaeth Cydraddoldeb, Hil ac Anabledd newydd Llywodraeth Cymru yn mynd i'r afael â rhai o'r materion hyn. Ond mae angen i waith yr unedau gynnwys ffocws allweddol ar gydraddoldeb rhwng y rhywiau ac anghydraddoldeb yn achos menywod sy'n wynebu gwahaniaethu croestoriadol er mwyn llywio dull gwirioneddol groestoriadol o lunio polisïau ym mhopeth a wna Llywodraeth Cymru.

Cyllidebau a Threthi

Mae ymrwymiad Llywodraeth Cymru i bolisi a deddfwriaeth ar fylchau cyflog ac i gynllun peilot incwm sylfaenol yn cael ei groesawu yn fawr. Fodd bynnag, nid yw'r camau cadarnhaol hyn yn mynd i'r afael â'r problemau sylfaenol. Er mwyn mynd i'r afael yn go iawn â'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau ac o ran ethnigrwydd ac anabledd, mae newid ar lefel economaidd-gymdeithasol yn ofynnol i ddelio â'r problemau croestoriadol y mae menywod yn eu hwynebu.

Mae angen i Lywodraeth Cymru sicrhau bod gofal plant fforddiadwy a hygyrch o chwe mis oed ymlaen yn flaenoriaeth yn ei chyllideb gwariant gan fod llawer o anghydraddoldeb economaidd menywod yn deillio o ofal plant annigonol. Mae angen i hyn ddigwydd ochr yn ochr â mentrau i sicrhau bod cyflogwyr yn ymrwymo i weithio hyblyg a rhan-amser, a hynny mewn ffyrdd nad ydynt yn gwaethygu'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau nac yn parhau i ffafrio dynion gwyn, nad ydynt yn anabl. Mae angen i Lywodraeth Cymru sicrhau bod gweithluoedd sy'n cael eu tanbrisio ac sy'n fenywod yn bennaf, a hynny mewn meysydd megis addysg/blynyddoedd cynnar, gofal cymdeithasol a gofal iechyd, yn cael cyflog teg, a bod llywodraeth leol a chwmnïau preifat yn y sectorau hyn yn mynd i'r afael â chyflogau isel. Mae menywod yn dal yn fwy tebygol o fod mewn gwaith ac yn hawlio budd-daliadau nawdd cymdeithasol megis Credyd Cynhwysol, ffaith sy'n amlygu'r problemau ariannol sy'n cael eu creu i fenywod o ganlyniad i gyflog isel a gwaith rhan-amser. Mae 55% o'r hawlwyr Credyd Cynhwysol yng Nghymru yn fenywod, ac mae 43% o'r hawlwyr benywaidd mewn gwaith. Er bod y system nawdd cymdeithasol y tu allan i gylch gwaith Llywodraeth Cymru, nid yw hynny'n wir am faterion sy'n ymwneud â chyflogau isel yn sectorau allweddol y wladwriaeth. Mae angen newidiadau mwy radical mewn polisi cyllidol.

CREDYD CYNHWYSOL YNG NGHYMRU

55% *o hawlwyr yn fenywod*

43% *o fenywod sy'n hawlio budd-daliadau mewn gwaith*

Yn 2022, disodlwyd Grwp Cynghorol y Gyllideb ar Gydraddoldeb (BAGE) gan Y Grwp Cynghori ar Wella ac Asesu Effaith y Gyllideb (BIIAG), sydd â chylch gwaith ehangach, yn cynnwys yr argyfwng hinsawdd a natur. Mae'n hanfodol bod y grwp newydd yn cynnal ffocws allweddol ar gydraddoldeb rhwng y rhywiau ac anghydraddoldeb ymhlith menywod sy'n wynebu gwahaniaethu croestoriadol; ar yr un pryd, mae angen iddo gydnabod effaith y newid yn yr hinsawdd ar fenywod yng Nghymru ac yn fyd-eang.

Mae yna elfennau cadarnhaol pwysig. Mae rhai o'r mesurau a roddwyd ar waith yn ystod y pandemig i geisio lleddfu'r effaith ariannol ar blant i'w canmol, megis dosbarthu dyfeisiau electronig ar gyfer addysgu o bell, a thalebau prydau ysgol am ddim yn ystod y tymor ac yn ystod gwyliau'r ysgol. Mae'r ymrwymiad i ehangu prydau ysgol am ddim i bob plentyn cynradd yn ystod y blynyddoedd nesaf i'w groesawu'n fawr. Mae hefyd yn gadarnhaol bod Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i weithredu targedau mewn perthynas â chyllidebu ar sail rhywedd. Fodd bynnag, araf fu'r cynnydd yn y maes hwn, a, hyd yma, nid ydym wedi gweld dull cyllidebu ar sail rhywedd sy'n wirioneddol groestoriadol.

Er bod gweithredu ystyrlon yn cael ei gyfyngu gan systemau nawdd cymdeithasol, trethiant a chyllidebol y DU, dylai Llywodraeth Cymru barhau i weithio gyda sefydliadau

trydydd sector a llawr gwlad i ddod o hyd i atebion realistig ac arloesol sy'n ystyried anghenion pob menyw.

ARGYMHELLION – DYLAI LLYWODRAETH CYMRU:

- **Gymryd camau gweithredu ystyrlon i gyflawni'r targed i leihau'r bwlch cyflog (llawn-amser) rhwng y rhywiau i 7% erbyn 2028;**
- **Mynd i'r afael â nifer y menywod sydd mewn gwaith rhan-amser trwy sicrhau gwell buddsoddiad mewn gofal plant a gofal cymdeithasol fel bod gwaith gofal di-dâl yn dod yn ddewis gwirioneddol;**
- **Monitro ac adrodd yn flynyddol ar effeithiolrwydd y Cynllun Gweithredu ar yr Economi, y Cynllun Cyflogadwyedd a'r Contract Economaidd o ran lleihau'r bylchau cyflog rhwng y rhywiau ac o ran ethnigrwydd ac anabledd;**
- **Ei gwneud yn ofynnol yn gyfreithiol i bob corff cyhoeddus a restrir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol adrodd ar ei fylchau cyflog rhwng y rhywiau, a hynny ochr yn ochr â choladu a chyhoeddi bylchau cyflog o ran ethnigrwydd, anabledd ac LGBTQ+, a gorfodi pob corff yn hynny o beth;**
- **Yn unol â chyrff cyhoeddus, ei gwneud yn ofynnol bod pob busnes yng Nghymru sy'n cael mynediad at gymorth busnes yn darparu gwybodaeth am y bwlch cyflog rhwng y rhywiau, a sicrhau ei fod yn amlygu ymrwymiad i hyrwyddo cydraddoldeb i bawb;**
- **Annog cyflogwyr i ddatblygu a gwella polisïau gweithio hyblyg i weddu i anghenion gweithwyr gwahanol, gan gynnwys menywod â chyfrifoldebau gofalu, pobl anabl, a menywod dosbarth gweithiol;**
- **Erbyn 2025, integreiddio dull o brif ffrydio cydraddoldeb ledled yr holl gyllidebau;**
- **Datblygu offer ar gyfer dadansoddi effaith unrhyw benderfyniadau ynghylch trethiant ar fenywod yng Nghymru, gan gynnwys buddsoddi mewn capasiti data i alluogi adrodd ar gynnydd mewn dangosyddion allweddol;**
- **Sicrhau bod y Grwp Cynghori ar Wella ac Asesu Effaith y Gyllideb (BIIAG) a'r Unedau Tystiolaeth Cydraddoldeb, Hil ac Anabledd yn cynnwys ffocws allweddol ar gydraddoldeb rhwng y rhywiau ac anghydraddoldeb ymhlith menywod sy'n wynebu gwahaniaethu croestoriadol, i'n helpu i ddeall a mynd i'r afael ag effaith penderfyniadau ynghylch y gyllideb a threthiant ar bob menyw yng Nghymru;**
- **Defnyddio pwerau llunio polisi datganoledig i gyflwyno system flaengar yng Nghymru o ran y Dreth Gyngor.**

HAWLIAU MENYWOD BYD-EANG
SGÔR: OREN

Nod Cymru yw bod yn genedl sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang, a galwn arni i fod yn genedl sy'n ystyried hawliau menywod yn fyd-eang yn fater o gyfiawnder cymdeithasol, boed hynny trwy gydsefyll â menywod dramor ac â'r rhai sy'n ceisio noddfa yng Nghymru, neu trwy weithredu ar y newid yn yr hinsawdd fel mater ffeministaidd.

Cydsafiad Byd-eang

Mae rhaglenni cyllid tramor Cymru, sy'n grymuso sefydliadau partner tramor i arwain y ffordd o ran y modd y mae cyllid yn cael ei ddefnyddio, yn gam cadarnhaol iawn, ac mae Llywodraeth Cymru yn haeddu clod am ei strategaeth a'i dull gweithredu. Enghraifft o arfer da yw'r grant cydraddoldeb rhwng y rhywiau ar gyfer sefydliadau yn Uganda. Mae sefydliadau yn Uganda wedi dewis cyfeirio'r cyllid hwn at brosiectau sy'n ymwneud â thrais ar sail rhywedd, plannu coed, a rhaglenni bywoliaeth gynaliadwy, megis menywod a chadw gwenyn.

Fodd bynnag, ni ddylai cyllid aros yn ei unfan. Mae angen i Lywodraeth Cymru barhau â phartneriaethau cydweithredol, a hynny gyda'r partneriaid ar lefel gyfartal ac yn arwain y gwaith o roi'r cyllid ar waith. Gallai Llywodraeth Cymru ehangu ei strategaeth a'i mewnbwn i gefnogi adnoddau, sgiliau a galluoedd y rhai sy'n gweithio mewn gwledydd eraill, gan wneud ymdrechion i beidio â defnyddio dull 'gwaredwr gwyn', a chydnabod bod llawer o'r gwaith sydd i'w wneud yn cael ei ysgogi gan y niwed a achoswyd o ganlyniad i weithredoedd imperialaidd.

Mae angen i Lywodraeth Cymru barhau â phartneriaethau cydweithredol, a hynny gyda'r partneriaid ar lefel gyfartal ac yn arwain y gwaith o roi'r cyllid ar waith.

Croesewir safbwynt Llywodraeth Cymru ar fasnach deg, ond mae angen gwneud mwy o waith i sicrhau bod cadwyni cyflenwi yn adlewyrchu cydsafiad byd-eang. Rhaid i'r Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus gynnwys cydsafiad byd-eang yn gyffredinol, a hawliau dynol a hawliau menywod yn benodol. Mae ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ymgorffori Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Ddiddymu Pob Math o Wahaniaethu yn Erbyn Menywod (CEDAW), yn ogystal â'r Confensiwn ar Hawliau Pobl Anabl (CRPD), yn cael ei groesawu gan y bydd hyn yn ymgorffori rhwymedigaethau hawliau dynol ar gyfer menywod a phobl anabl yng Nghymru. Hoffem hefyd weld rhagor o wybodaeth yn cael ei rhannu ochr yn ochr â chydsafiad â gwybodaeth frodorol, er enghraifft rhwng gweithwyr meddygol proffesiynol a'r materion croestoriadol sy'n ymwneud ag anghydraddoldebau iechyd. Mae hyn yn mynd rhagddo ar hyn o bryd yn achos y prosiect ar ffynhonnau sy'n cael ei gynnal trwy'r Rhwydwaith Cysylltiadau Iechyd Cymru ac Affrica, a allai fod yn fodel ar gyfer gwaith yn y dyfodol.

Mae Prif Weinidog Cymru wedi bod yn gefnogol i alwadau gan Gynghrair Brechlyn y Bobl i sicrhau nad yw Llywodraeth Cymru ddim ond yn gwylio tra bo "apartheid" brechlynnau yn datblygu, ac mae wedi addo cymorth i bartneriaid yn Lesotho, Namibia

[1] Alice Bloch (2002), "Refugees' Opportunities and Barriers to Training and Employment." Vol. 179. Leeds: Corporate Document Services.

ac Uganda. Eto i gyd, ni ddangoswyd digon o gydsafiad byd-eang yn ystod brigau pandemig COVID-19. Nid oedd y ffaith bod menywod yn aml ar y rheng flaen ac yn cael eu taro galetaf, ynghyd ag effaith hynny ar eu teuluoedd, wedi cael ystyriaeth ddigonol. Er bod PPE yn cael ei anfon i wledydd eraill, ni chafodd ei gyfeirio ar sail angen ond yn hytrach ar sail rhwydweithiau cyswllt a'r rhwyddineb cludo. Er enghraifft, cafodd Namibia gyfarpar PPE gwerth £7.2 miliwn o Gymru, ond mae'n genedl Affricanaidd gyfoethog, a chanddi'r adnoddau i gael gafael ar gyfarpar o'r fath yn gymharol hawdd. Yn y dyfodol, dylid anfon PPE i'r gwledydd hynny y mae arnynt ei angen fwyaf.

Eto i gyd, ni ddangoswyd digon o gydsafiad byd-eang yn ystod brigau pandemig COVID-19.

Dylai cydsafiad a phartneriaethau â gwledydd eraill gynnwys cefnogi seilweithiau a gwybodaeth leol. Er enghraifft, gallai Llywodraeth Cymru weithio i gefnogi gwledydd i ddatblygu eu brechlynnau eu hunain yn hytrach na pharhau â'r etifeddiaeth drefedigaethol o ddibyniaeth trwy gludo brechlynnau'r DU a chyfarpar gofal iechyd o fannau eraill. Gallai datblygu darpariaethau meddygol yn lleol hefyd helpu i fynd i'r afael â'r diffyg ymddiriedaeth mewn cynhyrchion meddygol a ddarperir gan gyn-drefedigaethwyr.

Mae cydnabyddiaeth ddiweddar Llywodraeth Cymru o rôl Cymru mewn gwladychu i'w groesawu, a bellach mae angen gwneud mwy o gysylltiadau cydweithredol. I fod yn wirioneddol ffeministaidd, mae'n ofynnol ystyried cydsafiad byd-eang yn fater o gyfiawnder cymdeithasol, a symud oddi wrth 'gymorth' ariannol tuag at bartneriaethau caffael a ffyrdd cyfannol o weithio.

Cenedl Noddfa

Mae Llywodraeth Cymru wedi mabwysiadu safbwynt clir o ran bod croeso i geiswyr lloches a ffoaduriaid yng Nghymru, ac mae hynny i'w ganmol. Mae'r gwrthodiad eglur mewn perthynas ag adrannau o'r Bil Cenedligrwydd a Ffiniau hefyd yn gadarnhaol. Er i'r Bil gael ei basio yn Nhŷ'r Cyffredin, roedd y safbwynt bod yna groeso i geiswyr lloches a ffoaduriaid yng Nghymru yn arwyddocâd pwysig i lawer, ac yn fwyaf nodedig y rhai sydd wedi ceisio noddfa yng Nghymru.

Mewn llythyr at Weinidog y DU dros Ffiniau a Mewnfudo yn y Dyfodol, gofynnodd y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol i Lywodraeth y DU ddiddymu'r gwaharddiad ar geiswyr lloches rhag gweithio yn y DU yn achos unrhyw unigolyn a oedd wedi bod yn aros am chwe mis neu fwy am benderfyniad gan y Swyddfa Gartref. Er bod hwn yn gam cadarnhaol, mae'n methu'r nod o ran ymrwymiad Llywodraeth Cymru i integreiddio pobl o'r diwrnod y maent yn cyrraedd, sydd i'w weld yn ei Cynllun Gweithredu Cenedl Noddfa. Roedd cyflwyno'r cynllun teithio am ddim i ffoaduriaid rhwng mis Mawrth a mis Medi 2022 i'w groesawu'n fawr, ac rydym yn annog Llywodraeth Cymru i gynnal y ddarpariaeth hon a'i hehangu i geiswyr lloches.

Roedd cyflwyno'r cynllun teithio am ddim i ffoaduriaid rhwng mis Mawrth a mis Medi 2022 i'w groesawu'n fawr, ac rydym yn annog Llywodraeth Cymru i gynnal y ddarpariaeth hon a'i ehangu i geiswyr lloches.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cymryd camau i fynd i'r afael â materion sy'n ymwneud â mynediad at addysg a chyflogaeth i geiswyr lloches, camau y mae eu dirfawr angen yng ngoleuni'r ffaith bod 30-40% o ffoaduriaid yn wynebu diweithdra. Mae'r Prosiect AilGychwyn, canolfannau integreiddio a'r hybiau Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill (ESOL) yn fentrau gwych, ond mae gwaith i'w wneud o hyd. Yng Nghaerdydd, er enghraifft, mae'r ganolfan wedi'i lleoli mewn coleg, sy'n rhwystr o ran trafnidiaeth a gofal plant – dau rwystr cyfarwydd i ddysgu ESOL neu o ran cael addysg yng Nghymru, ac sy'n cael effaith anghymesur ar fenywod sy'n ceisio noddfa.[1]

Mae ystyried rhywedd a chyfiawnder hinsawdd fel materion integredig yn elfen hanfodol pan gall menywod a phlant fod 14 gwaith yn fwy tebygol o farw neu o gael anaf mewn trychineb naturiol na dynion.

Er ein bod yn croesawu'r gwaith y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud, rhaid parhau i weithredu yn wyneb Deddf Cenedligrwydd a Ffiniau 2022 a Chynllun Rwanda y Swyddfa Gartref.

Cyfiawnder Hinsawdd

Er bod Llywodraeth Cymru yn amlwg yn ystyried y newid yn yr hinsawdd yn fater difrifol, hoffem ei gweld yn mabwysiadu agwedd fwy eglur o ran bod cyfiawnder hinsawdd yn fater ffeministaidd. Nid yw Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 na Rheoliadau Newid yn yr Hinsawdd (Cymru) 2021 yn cydnabod yn benodol fod newid yn yr hinsawdd yn fater hawliau dynol neu hawliau menywod, ac mae felly'n methu o ran mabwysiadu dull cyfiawnder cymdeithasol.

Mae ystyried rhywedd a chyfiawnder hinsawdd yn faterion integredig yn elfen hanfodol pan fo menywod a phlant, o bosibl, 14 gwaith yn fwy tebygol o farw neu o gael anaf mewn trychineb naturiol na dynion. Mae dadleoli oherwydd newid hinsawdd yn cael effaith anghymesur ar fenywod anabl a thraws, yn enwedig mewn perthynas â gofal iechyd.

Mae dull cyfiawnder hinsawdd rhwng y rhywiau hefyd yn gofyn am ragor o ffocws ar hawliau a bywydau menywod cynhenid. Gallai hyn gynnwys mynd i'r afael yn benodol â chadwyni cyflenwi sydd ynghlwm wrth waith datgoedwigo sy'n effeithio ar fywoliaeth, bywydau a hawliau menywod. Mae Cynllun Gweithredu Cymru ac Affrica yn enghraifft dda o ddull gweithredu seiliedig ar gyfiawnder cymdeithasol y dylid ei estyn yn ehangach.

Mae ymchwil yn awgrymu y byddai buddsoddiadau yn y sector gofal nid yn unig o fudd i fenywod yng Nghymru, ond y byddai hefyd yn gyson â'r newid i economi carbon isel.

Mewn trafodaethau ynghylch y cyfnod pontio sero net, adlewyrchir y diffyg o ran cynnwys hawliau menywod ymhellach gan ffocws ar ddiwydiannau lle mae dynion yn tueddu i dra-arglwyddiaethu yng Nghymru (er enghraifft amaethyddiaeth a gweithgynhyrchu trwm). Mae ymchwil yn awgrymu y byddai buddsoddiadau yn y sector gofal nid yn unig o fudd i fenywod yng Nghymru, ond y byddai hefyd yn gyson â'r newid i economi carbon isel, a hynny am mai dim ond cyfran fechan o allyriadau'r swydd gyfredol gyfartalog y mae swyddi mewn

[1] Alice Bloch (2002), "Refugees' Opportunities and Barriers to Training and Employment." Vol. 179. Leeds: Corporate Document Services.

gofal yn ei chynhyrchu, ynghyd â'r ffaith ei bod yn defnyddio llai o fewnbynnau mewnforiedig. Yn gyffredinol, mae angen i bolisïau sero net wisgo lens ffeministaidd fyd-eang wrth ystyried masnach, buddsoddi a chaffael yn ddomestig ac yn rhyngwladol.

ARGYMHELLION – DYLAI LLYWODRAETH CYMRU:

- **Gynnal asesiadau hawliau dynol a chydraddoldeb rhwng y rhywiau ar bolisïau masnach cyfredol a newydd;**
- **Rhannu technoleg brechlynnau trwy Gronfa Mynediad Technoleg COVID Sefydliad Iechyd y Byd i leihau'r disgwyliad amcangyfrifedig (yn 2021) o 57 mlynedd i bawb gael eu brechu'n llawn;**
- **Cefnogi nifer uwch o ddosbarthiadau ESOL a darparu gofal plant am ddim i alluogi menywod i'w mynychu;**
- **Cynnwys Hawliau Menywod a Chydsafiad Byd-eang â menywod yn y Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus;**
- **Ymrwymo i hyfforddi staff masnachu rhyngwladol mewn cydraddoldeb rhwng y rhywiau, diogelu a chaffael moesegol;**
- **Cydnabod a darparu cymorth priodol ar gyfer ffoaduriaid hinsawdd;**
- **Sicrhau bod y potensial i fuddsoddi mewn sectorau carbon isel lle mae menywod yn tra-arglwyddiaethu, megis gofal ac addysg, yn cael ei ystyried yn ddigonol wrth drosglwyddo i sero net, a hynny'n ddomestig ac yn rhyngwladol;**
- **Gweithredu'n gyflym i gyflawni ei hymrwymiad i ymgorffori egwyddorion CEDAW a'r CRDP yng Nghyfraith Cymru, ac ymrwymo i ymgorffori'r Confensiwn Rhyngwladol ar Ddiddymu Pob Math o Wahaniaethu (ICERD) i gryfhau'r amddiffyniad ar gyfer hawliau menywod sy'n profi gwahaniaethu croestoriadol.**

CYFRIFOLDEBAU GOFALU

SGÔR: COCH

Yn 2022, mae menywod yn cario llwyth gwaith trymach ac anghyfartal wrth ofalu am blant ac aelodau eraill o'r teulu. Mae'r pandemig wedi gwaethygu'r anghydbwysedd o ganlyniad i sgileffeithiau difrifol ar gyllid ac iechyd meddwl menywod, ac mae hefyd wedi tynnu sylw at ddibyniaeth y genedl ar waith gofal di-dâl menywod. .

Ni all 73% o deuluoedd Cymru fforddio gofal plant ffurfiol.

Gofal plant

Yng Nghymru, mae 86% o rieni sengl yn famau ac mae 63% o famau mewn cartrefi dau riant yn dweud mai nhw sy'n bennaf cyfrifol neu'n

llwyr gyfrifol am ofal plant (o gymharu â dim ond 17% o dadau). Mae diffyg gofal plant yn un o'r rhwystrau a nodir amlaf i gyflogaeth menywod, gan arwain at lai o gyfranogiad economaidd a chwtogi ar ddewisiadau menywod o ran gyrfa. Dywed 73% o deuluoedd yng Nghymru nad ydynt yn defnyddio gofal plant ffurfiol am eu bod methu fforddio ei ddefnyddio. Nid oedd 81% o'r cyfranogwyr mewn Arolwg RhCM yn 2021 yn cytuno bod y darpariaethau gofal plant cyfredol yng Nghymru yn rhoi digon o gymorth i rieni, yn enwedig mamau, gael swydd, ac aros a gwneud cynnydd ynddi.

Mae'r Cynnig Gofal Plant presennol, sy'n darparu 30 awr yr wythnos o addysg gynnar a gofal plant i rieni plant tair a phedair oed, yn gymorth hanfodol, ond nid yw'n dod ar gael nes bod penderfyniadau allweddol am fywydau gwaith menywod eisoes wedi cael eu gwneud. Mae polisi absenoldeb rhiant a rennir y DU yn cwmpasu'r cyfnod rhwng genedigaeth y plentyn a'i ben-blwydd cyntaf, gan adael diffyg amlwg mewn darpariaethau rhwng un a thair oed, diffyg nad yw'n dod o dan ddarpariaethau Llywodraeth y DU na Chymru. Mae'r cynllun Dechrau'n Deg, sydd ar gael i blant dwy oed mewn ardaloedd penodol, yn darparu cymorth interim annigonol gan ei fod yn gyfyngedig yn ddaearyddol ac o ran yr oriau sydd ar gael (12.5 yr wythnos).

Mae'r Rhaglen Lywodraethu ddiweddaraf yn cynnwys ymrwymiad cadarnhaol i ariannu gofal plant ar gyfer rhagor o rieni sydd mewn addysg neu hyfforddiant, ac i ehangu darpariaeth y blynyddoedd cynnar i bob plentyn 2 oed. Fodd bynnag, yr unig ehangu sydd wedi cael ei gyhoeddi hyd yma yw hwnnw ar gyfer 2,500 o blant ychwanegol o dan bedair oed sy'n dechrau ym mis Medi 2022 o dan y cynllun Dechrau'n Deg. Mewn cymhariaeth, cafodd 28,781 o blant eu geni yng Nghymru yn 2020. Mae angen ehangu gofal plant yn gyflym neu bydd yn cyflawni rhy ychydig yn rhy hwyr i wrthdroi effaith andwyol y pandemig a'r argyfwng costau byw.

AWDURDODAU LLEOL

6% *sydd gan ddigon o ofal plant i rieni sy'n gweithio oriau annodweddiadol*

15% *heb ddarpariaeth ddigonol ar gyfer teuluoedd mewn ardaloedd gwledig*

38% *gyda dim digon o ofal ar gyfer plant anabl*

Mae'r Cynnig Gofal Plant hefyd yn gyfyngedig iawn oherwydd argaeledd a hyblygrwydd annigonol a darpariaethau anghyson ledled Cymru. Yn 2021, dim ond 6% o awdurdodau lleol (ALl) a ddywedodd fod ganddynt ddigon o ofal plant i rieni a oedd yn gweithio oriau annodweddiadol ym mhob ardal. Nid oes gan 15% o ALlau ddarpariaeth ddigonol ar gyfer teuluoedd mewn ardaloedd gwledig ledled yr awdurdod lleol. Mae 38% o awdurdodau lleol yn dweud nad oes ganddynt ddigon o ofal plant ar gyfer plant anabl yn unrhyw le yn eu hawdurdod lleol. Mae hyn yn dangos nad yw gofal plant yn aml ar gael i'r rhai y mae arnynt ei angen fwyaf – megis menywod ar gyflog isel mewn cyflogaeth ansicr y mae arnynt angen gofal plant y tu allan i oriau craidd ac sy'n cael eu taro galetaf ar hyn o bryd gan yr argyfwng costau byw.

Ar hyn o bryd, nid oes yna unrhyw gynlluniau i estyn y cynnig i famau di-waith, mamau na fyddant, o bosibl, yn gallu dychwelyd i gyflogaeth gan nad yw cyfrifoldebau gofal

plant yn caniatáu iddynt chwilio am swyddi a gwneud cais amdanynt. Mae hefyd yn golygu, er bod y cynnig hwn ar gael i unigolion heb unrhyw hawl i arian cyhoeddus, nad yw ar gael ar hyn o bryd i famau sy'n ceisio lloches nad ydynt yn cael gweithio, sy'n rhwystr i'w presenoldeb mewn dosbarthiadau ESOL ac o ran paratoi at gael statws ffoadur.

Gofal Di-dâl

Er bod pandemig COVID-19 wedi amlygu pwysigrwydd gwaith gofal di-dâl, mae hefyd wedi dwyn i'r amlwg y cysylltiadau rhwng gofal, rhywedd, a thlodi. Cyn y pandemig, roedd Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod 96% o'r gwaith gofalu yng Nghymru yn ddi-dâl. Mae bron 60% o'r gofalwyr di-dâl yng Nghymru yn fenywod.

£33miliwn

Y swm y mae gofalwyr di-dâl yn ei arbed i economi Cymru bob dydd.

Yn ystod misoedd cynnar y pandemig, adroddodd 80% o'r gofalwyr di-dâl yng Nghymru am gynnydd yn eu gwaith gofalu. Amcangyfrifwyd bod gofalwyr di-dâl yn arbed £33 miliwn bob dydd i economi Cymru, ac eto dim ond 7% o oedolion a oedd yn ymwybodol nad oedd gan ofalwyr di-dâl unrhyw hawliau cyfreithiol. Datgelodd yr un data fod 91% o'r oedolion a holwyd yng Nghymru yn meddwl bod gofalwyr di-dâl wedi chwarae rhan bwysig yn ystod y pandemig. Heb os, mae yna argyfwng gofal cenedlaethol wedi bod yng Nghymru, ac mae'r effeithiau ariannol a'r effeithiau ar iechyd meddwl wedi bod yn sylweddol. Yn 2021, roedd dros draean y gofalwyr yng Nghymru yn brwydro i gael deupen llinyn ynghyd, ac roedd 34% yn dweud bod eu hiechyd meddwl yn wael neu'n wael iawn.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cymryd camau pwysig i fynd i'r afael â'r heriau hyn, gan gynnwys ei Strategaeth ar gyfer Gofalwyr Di-dâl yn 2021, a sefydlu'r Gronfa Gymorth i Ofalwyr mewn ymateb i effaith ariannol y pandemig. Mae'r cyhoeddiad mwyaf diweddar yn cael croeso arbennig gennym, sef buddsoddiad o £4.5 miliwn dros y tair blynedd nesaf, sy'n cynnwys grantiau cymorth costau byw gwerth £300 nad ydynt yn gysylltiedig â Lwfans Gofalwyr, pensiynau na budd-daliadau eraill. Ac eto, mae'r ffigurau hyn yn ddibwys o'u cymharu â'r amcangyfrif o £8.1 biliwn yr oedd gwaith gofal di-dâl wedi ei arbed eisoes i economi Cymru cyn y pandemig.

Mae gwaith gofal di-dâl yn hanfodol ar gyfer ein heconomi a llesiant ein cymdeithas, ac eto mae'n dal i gael ei danbrisio'n enbyd ac yn cael effaith andwyol ar ofalwyr. Mae hyn yn effeithio'n anghymesur ar fenywod, yn enwedig menywod sydd wedi'u hymyleiddio, megis mamau sengl, menywod hil-ddiffiniedig, a menywod hŷn. Rhaid ystyried y cynnydd mewn gwaith gofal di-dâl a'r diffyg seibiant i ofalwyr yn ystod y pandemig yn flaenoriaeth. Mae ffocws ar ailddechrau gwasanaethau cymorth yn flaenoriaeth frys. Mae Strategaeth Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i gydweithredu â gofalwyr di-dâl, eu cynrychiolwyr a darparwyr gwasanaethau a bod cydweithredu yn ofynnol nawr fwy nag erioed.

Y gweithlu gofal cyflogedig

Mae gofal cymdeithasol yn gwbl hanfodol i'n heconomi a'n cymdeithas, ac amlygwyd hyn ymhellach gan y pandemig. Ac eto, mae'r sector mewn argyfwng, gyda phroblemau

recriwtio a chadw staff yn arwain at anghenion gofal a chymorth nad ydynt yn cael eu diwallu, yn ogystal ag oedi o ran rhyddhau o'r ysbyty. Mae hyn yn cynnwys y cymorth gwael ar gyfer pontio i fyd oedolion yn achos pobl ifanc ag anableddau dysgu a'r diffyg cymorth i bobl anabl, cymorth a ddylai gael ei ddarparu yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Yn ail hanner 2021, cyhoeddodd chwech allan o saith bwrdd iechyd na fyddent yn gallu anrhydeddu pecynnau gofal y cytunwyd arnynt yn flaenorol.

Ni fydd chwech allan o saith bwrdd iechyd yng Nghymru yn gallu anrhydeddu pecynnau gofal y cytunwyd arnynt yn flaenorol

Mae'n dra hysbys bod gan y sector broblemau o ran cyflogau isel a chontractau ansicr, fel yr amlygwyd gan y Comisiwn Gwaith Teg. Mae 80% o'r gweithlu yn fenywaidd, ac mae menywod hil-ddiffiniedig yn cael eu gorgynrychioli yn y rolau sy'n talu leiaf ac sydd fwyaf ansicr. Er bod y symudiad tuag at gyflog byw go iawn i'w groesawu, mae angen ei roi ar waith ym mhob maes o'r sector ac nid yn unig yn achos y rhai a gyflogir yn uniongyrchol gan wasanaethau gofal cymdeithasol cyhoeddus. Darperir llawer o wasanaethau gofal trwy gontractau hunangyflogaeth ag awdurdodau lleol neu gyflogwyr preifat, lle mae'r isafswm cyflog yn dal i gael ei ddefnyddio. Pan fo gweithwyr yn gallu ennill mwy yn gweithio ym maes manwerthu, gweinyddu swyddfa neu lanhau preifat neu hunangyflogedig, mae cynnal gweithlu â sgiliau a phrofiad digonol yn broblem enfawr.

Mae llawer o'r pryderon hyn yn berthnasol ledled y gweithlu gofal cymdeithasol a gofal plant. Mae'r gweithlu gofal plant yn cynnwys menywod yn bennaf. Fodd bynnag, mae menywod hil-ddiffiniedig yn tueddu i gael eu tangynrychioli yn y sector hwn. Mae'r sector yn brwydro oherwydd cyflogau isel, telerau ac amodau gwael, a chontractau ansicr, elfennau sy'n arwain at brinder staff, a hyn, yn y pen draw, yn effeithio ar ansawdd y gofal a'r addysg i blant yng Nghymru. Mae'r cynnydd mewn cyfraddau fesul awr i ddarparwyr gofal plant o £4.50 i £5 y pen yn gam i'w groesawu tuag at wella amodau a chynaliadwyedd y sector. Ond mae'n debygol o fod yn annigonol i arwain at welliant mewn tâl ac amodau sy'n cyfateb i gyfrifoldeb y rôl, neu i sicrhau gwelliant sylweddol o ran y diffyg darpariaethau ledled Cymru.

Mae gofal cymdeithasol a gofal plant fforddiadwy, hygyrch, sy'n cael ei ddarparu gan staff sy'n cael cyflog a hyfforddiant da, yn biler allweddol o ran cydraddoldeb rhwng y rhywiau yng Nghymru, a dylai fod yn fater o bryder canolog yn ymateb Llywodraeth Cymru i argyfwng y pandemig a chostau byw.

ARGYMHELLION – DYLAI LLYWODRAETH CYMRU:

- **Fuddsoddi mewn adferiad a arweinir gan ofal, a hynny'n rhan o ailadeiladu mewn modd gwyrddach a thecach, a mynd i'r afael â'r argyfwng costau byw (argymhelliad cyffredinol allweddol sy'n deillio o'r uchod, yn ogystal ag o'r adran ar Gydsafiad Byd-eang);**
- **Gwneud y Cynnig Gofal Plant yn fforddiadwy ac yn hygyrch i rieni pob plentyn o chwe mis oed;**

- **Buddsoddi mewn darpariaethau meithrin ac addysg gynnar i sicrhau eu bod yn hygyrch i bob rhiant sy'n gymwys, a hynny ar yr adeg ac yn y fan y mae arnynt eu hangen. Dylai hyn fynd i'r afael yn benodol â'r diffyg darpariaeth yn ystod oriau gwaith annodweddiadol, darpariaethau ar gyfer plant anabl a'r rhai ag anghenion dysgu ychwanegol, yn ogystal â darpariaeth mewn ardaloedd gwledig;**
- **Ehangu darpariaethau gofal plant i rieni di-waith i'w cefnogi i chwilio am waith, ac i geiswyr lloches er mwyn caniatáu iddynt gymryd dosbarthiadau ESOL a pharatoi ar gyfer cael statws ffoadur;**
- **Casglu data cydraddoldeb cadarn yn rhan o'r gwaith o werthuso a monitro'r Cynnig Gofal Plant i sicrhau mynediad a chymhwystra cyfartal;**
- **Cyfrannu at newid diwylliannol lle mae gwaith gofal di-dâl i bob oed yn cael ei gydnabod ac y rhoddir gwerth priodol arno;**
- **Sicrhau bod gofalwyr di-dâl yn cael eu cynnwys wrth gynllunio a darparu polisïau a gwasanaethau sy'n effeithio ar eu bywydau;**
- **Datblygu ac adeiladu ar gynlluniau presennol i sicrhau y rhoddir gwerth ar y proffesiwn gofal cymdeithasol a gofal plant a'i fod yn cael ei wella, a hynny trwy fesurau megis cyflog byw go iawn ledled y sector, gwell cyfleoedd i gamu ymlaen mewn gyrfa, a chymorth ar gyfer iechyd meddwl a llesiant gweithwyr gofal.**

CYNRYCHIOLAETH AC ARWEINYDDIAETH CYFARTAL

SGÔR: OREN

Senedd

Gwelwyd cynnydd unwaith eto yn etholiadau Senedd 2021 o ran nifer y menywod a benodwyd i Lywodraeth Lafur Cymru, gyda 9 o'r 14 o Aelodau Cabinet yn fenywod. Roedd yr etholiad hefyd wedi ethol y canlynol yn ffurfiol:

- 43% o fenywod yn ASau – cynnydd o un AS oddi ar 2016 ond yn gynnydd is nag mewn blynyddoedd blaenorol;
- Y fenyw gyntaf o gefndir hil-ddiffiniedig i fod yn AS ers datganoli, gan roi cyfanswm o dri AS (5%) o gefndir hil-ddiffiniedig;
- Tri (5%) AS yn LGBTQ+ ar goedd, ond dim un AS yn fenyw draws neu'n unigolyn anneuaidd ar goedd.

O'r 470 o ymgeiswyr ar gyfer etholiadau'r Senedd yn 2021, dim ond 31% a oedd yn fenywod (roedd 29% ymhlith ymgeiswyr etholaethau a 32% ar restrau rhanbarthol). Mae llwyddiant gorgymesur menywod yn dangos yn glir eu gallu i ennill etholiadau ar ôl iddynt gael eu dewis yn ymgeiswyr. Ond mae hefyd yn dangos bod angen gwneud mwy i sicrhau bod menywod yn ogystal ag ymgeiswyr eraill heb gynrychiolaeth ddigonol yn sefyll etholiad yn y lle cyntaf.

% O ASAU MENYWOD

Llafur 57%

Plaid Cymru 38%

Ceidwadwyr 19%

Mae'r canlyniadau'n amrywio'n fawr rhwng pleidiau gwahanol, gyda menywod yn cyfrif am 57% o ASau Llafur, 38% o ASau Plaid Cymru ac 19% o ASau Ceidwadol. Mae hyn yn dangos bod cynrychiolaeth menywod yn y Senedd yn ddibynnol iawn ar fentrau gwirfoddol pleidiau unigol, megis defnydd Llafur o restrau byr menywod yn unig. Er bod mentrau o'r fath yn ganmoladwy, ni allant ddiogelu cynrychiolaeth gyfartal mewn modd cadarn a hirdymor.

Er mwyn mynd i'r afael â'r materion hyn, ac yn rhan o broses ddiwygio etholiadol sy'n darparu Senedd ehangach, mae'r Ymgyrch 5050Amrywiol wedi galw am gwotâu amrywiaeth a rhywedd sy'n gyfreithiol-rwym. Roedd y datganiad safbwynt ar y cyd gan y Prif Weinidog ac Arweinydd Plaid Cymru wedi gwneud ymrwymiad addawol iawn i gyflwyno cwotâu rhywedd sy'n gyfreithiol-rwym yn rhan o ehangu'r Senedd o 60 i 96 o aelodau. Mae hyn hefyd wedi cael ei gymeradwyo gan adroddiad y Pwyllgor Diben Arbennig ar Ddiwygio'r Senedd, a gymeradwywyd yn ddiweddar gan y Senedd.

Fodd bynnag, mae angen gwneud rhagor o waith ar fecanweithiau eraill i annog ethol Senedd fwy amrywiol, megis cyflwyno cyfleoedd i rannu swyddi, cadw darpariaethau gweithio hybrid, cefnogi ymgeiswyr gyda threuliau gofal, yn ogystal â mesurau cadarn i gefnogi'r broses o ethol menywod sy'n hil-ddiffiniedig, yn anabl, a/neu'n LGBTQ+. Yn fyd-eang, mae cwotâu sydd wedi'u hymgorffori'n groestoriadol yn dod i'r amlwg fel arfer gorau i sicrhau cynrychiolaeth amrywiol ledled nodweddion gwarchodedig gwahanol, ac, yn y pen draw, dylai Llywodraeth Cymru weithio tuag at y rhain fel y safon aur. Mae cwotâu o'r fath yn defnyddio gofynion croestoriadol o fewn cwotâu seiliedig ar grwp, megis trwy fynnu bod cydraddoldeb rhwng y rhywiau yn cael ei gynnwys mewn cwotâu ar gyfer nodweddion eraill. Er enghraifft, mewn cwota o 20% ar gyfer pobl anabl, gallai gofyniad croestoriadol nodi bod angen i hanner yr ymgeiswyr hyn fod yn ddynion a hanner yn fenywod.

Llywodraeth Leol

Cafwyd rhai canlyniadau cadarnhaol yn etholiadau lleol 2022. Sir Fynwy a Bro Morgannwg oedd y cynghorau cyntaf i sicrhau cydbwysedd rhwng y rhywiau. At ei gilydd, roedd 36% o'r cynghorwyr a gafodd eu hethol yn ffurfiol yn etholiadau 2022 yn fenywod, cynnydd o 8% oddi ar 2017. Erbyn hyn, y cyngor sydd â'r gyfran isaf o gynghorwyr benywaidd yw Ceredigion, sef cyfran o 18%, ac yna Sir Benfro gyda 22%.

Unwaith eto, mae yna amrywiaeth fawr rhwng y pleidiau gwahanol. Roedd Llafur yn arwain y ffordd gyda 44% o'i chynghorwyr etholedig yn fenywod, yna'r Democratiaid Rhyddfrydol (35%) yn dilyn, ac wedyn Plaid Cymru (34%), y Ceidwadwyr (29%), cynghorwyr Annibynnol (26%) a'r Blaid Werdd (25%).

Yn gyffredinol, dangosodd y canlyniadau effaith gadarnhaol rhaglen Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC), sef Amrywiaeth

% O'R CYNGHORWYR ETHOLEDIG MENYWOD

Llafur 44%

Democratiaid Rhyddfrydol 35%

Plaid Cymru 34%

Ceidwadwyr 29%

Annibynwyr 26%

Y Blaid Werdd 25%

mewn Democratiaeth. Arweiniodd y rhaglen at gynghorau ledled Cymru yn mabwysiadu datganiadau a chynlluniau gweithredu ar amrywiaeth cyn etholiadau 2022, a gwelwyd rhai siroedd, megis Sir Fynwy, yn ymrwymo i darged cydraddoldeb rhwng y rhywiau. Mae'r ffaith bod gweithio o bell wedi'i ymgorffori'n barhaol yn Neddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) yn gam cadarnhaol arall sy'n darparu gwell mynediad i fenywod â chyfrifoldebau gofalu a phobl anabl.

Eto i gyd, mae llawer o waith i'w wneud o hyd i sicrhau bod awdurdodau lleol yn cynrychioli'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu, a hynny nid yn unig o ran rhywedd, ond hefyd o ran cymunedau hil-ddiffiniedig, LGBTQ+ ac anabl. Mae anogaeth ehangach ar gyfer rhannu swydd yn hanfodol er mwyn helpu mwy o fenywod a grwpiau eraill sydd wedi'u hymyleiddio i gael mynediad at wleidyddiaeth leol. Yn ogystal, mae angen data gwell ar frys gan fod diffyg data dibynadwy ar amrywiaeth ymgeiswyr, a hynny ar lefel leol a chenedlaethol, yn ei gwneud yn anodd monitro cynnydd.

Byrddau'r Sector Cyhoeddus

Roedd canran y menywod a benodwyd ac a ailbenodwyd i fyrddau yng Nghymru yn 48.5% yn 2020-21, sef 15% yn is na'r penllanw o 63.5% yn 2018-19. Roedd canran y bobl sy'n hil-ddiffiniedig, yn anabl neu'n nodi eu bod yn LGBTQ+ yn is na 5% ym mhob un grwp yn 2020-21. Unwaith eto, mae hyn yn is na ffigurau cynharach, megis 8.1% o aelodau byrddau yn hil-ddiffiniedig yn 2019-20 a 7.6% o aelodau byrddau yn anabl yn 2017-18. Yn achos pob un o'r nodweddion hyn, mae'r ffigurau'n amrywio'n fawr o flwyddyn i flwyddyn, gan ddangos nad yw'r cynnydd wedi bod yn un llinol.

Roedd y ffaith bod Llywodraeth Cymru wedi lansio ei Strategaeth Amrywiaeth a Chynhwysiant ar gyfer Penodiadau Cyhoeddus a Chynllun Gweithredu Blwyddyn 1 yn 2020 yn anelu at wella hyn. Roeddem yn falch o weld bod y Strategaeth yn cydnabod ac yn ceisio newid y profiad gwael a gafodd nifer o fenywod o grwpiau wedi'u hymyleiddio ar fyrddau. Mae camau gweithredu penodol yn cael eu croesawu'n arbennig, megis herio'r rhwystrau a wynebir gan grwp gwarchodedig, a gwneud y broses benodi yn fwy tryloyw a hygyrch. Mae'r strategaeth yn cynnwys ymrwymiad yn ogystal i wella'r broses o gasglu data, gan gynnwys data croestoriadol. Mae hefyd yn cynnig yr opsiwn i osod targedau ar draws pob bwrdd ar gyfer pobl hil-ddiffiniedig, anabl ac LGBTQ+, a hynny'n ychwanegol at darged cyfredol 2020 o 50% o fenywod mewn bywyd cyhoeddus.

48.5% *Nifer y menywod a benodwyd ac a ailbenodwyd i fyrddau yng Nghymru 2020/21*

15% *yn is o'i gymharu â 2018/19*

O ystyried y llwyddiant cymysg yn ystod y blynyddoedd diwethaf, a'r diffyg parhaus o ran data croestoriadol, mae angen y camau hyn ar frys. Ac eto, ar yr un pryd â gwella'r broses o gasglu data, mae angen i Lywodraeth Cymru fod yn fwy rhagweithiol ynghylch rhoi rhaglenni ar waith i gefnogi ac annog rhagor o fenywod, o bob croestoriad, i swyddi arweinyddiaeth. Mae rhagor o waith yn ofynnol i fynd i'r afael â thuedd anymwybodol mewn arweinyddiaeth ac i wneud y broses benodi yn fwy tryloyw a hygyrch.

ARGYMHELLION – DYLAI LLYWODRAETH CYMRU:

- **Sicrhau bod Deddf Diwygio'r Senedd yn cynnwys cwotâu rhywedd sy'n gyfreithiol-rwym, ynghyd â sancsiynau am beidio â chydymffurfio;**
- **Sicrhau bod pleidiau gwleidyddol yn rhoi sylw dyledus i amrywiaeth eu rhestrau ymgeiswyr o ran eu bod yn cynrychioli'r holl nodweddion gwarchodedig, gan gynnwys statws hil/ethnig lleiafrifol, anabledd, oedran, rhywioldeb a hunaniaeth rhywedd;**
- **Ystyried cyflwyno cwotâu sydd wedi'u hymgorffori'n groestoriadol, yn unol ag arfer gorau byd-eang sy'n dod i'r amlwg i sicrhau cynrychiolaeth deg o fenywod anabl, menywod hil-ddiffiniedig, menywod LGBTQ+ a menywod iau;**
- **Cyflwyno deddfwriaeth sy'n caniatáu ymgeiswyr sy'n rhannu swydd yn etholiad nesaf y Senedd;**
- **Estyn y broses o ymgorffori gweithio o bell yn gyfreithiol i lefel y Senedd;**
- **Darparu cyfleusterau gofal plant yn y Senedd;**
- **Estyn y gronfa Mynediad i Swyddi Etholedig i dalu costau gofalu, ac archwilio'r modd y gellir ei hehangu i gefnogi ymgeiswyr â nodweddion gwarchodedig eraill, yn enwedig anfantais economaidd-gymdeithasol;**
- **Annog amrywiaeth eang o aelodau etholedig, nid menywod yn unig, i rannu swyddi gweithredol ym myd llywodraeth leol;**
- **Parhau i gefnogi'r rhaglen fentora Pwer Cyfartal Llais Cyfartal i gefnogi menywod a grwpiau eraill a dangynrychiolir i gael mynediad i fywyd gwleidyddol a chyhoeddus;**
- **Gwella'r broses o gasglu data ar amrywiaeth yr ymgeiswyr ledled y Senedd, llywodraeth leol a byrddau cyhoeddus.**

TERFYNU TRAIS YN ERBYN MENYWOD A MERCHED

SGÔR: OREN / COCH yn achos menywod heb unrhyw hawl i arian cyhoeddus a chyllid cynaliadwy

Mae Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig, a Thrais Rhywiol (VAWDASV) yn parhau i fod yn bryder allweddol sy'n effeithio'n anghymesur ar fenywod ac sy'n cael ei gyflawni'n bennaf gan ddynion. Ledled Cymru a Lloegr, mae 73% o'r troseddau cam-drin domestig, a 93% o'r troseddau rhywiol yn cael eu cyflawni yn erbyn menywod. Yng Nghymru, dim ond 28% o fenywod sy'n teimlo'n ddiogel iawn yn cerdded ar eu pen eu hunain ar ôl iddi dywyllu, o gymharu â 48% o ddynion.

LEDLED CYMRU A LLOEGR MAE

73% *o droseddau cam-drin domestig*

93% *o droseddau rhywiol*

YN ERBYN MENYWOD

CERDYN SGORIO FFEMINISTAIDD 2022

Yn ystod y pandemig, gwelwyd cynnydd mewn VAWDASV yng Nghymru. Yn 2021, roedd Data gan Cymorth i Ferched Cymru yn dangos cynnydd o 22% mewn cysylltiadau gan oroeswyr a chynnydd o 43% mewn cysylltiadau gan bobl eraill pryderus â'r Llinell Gymorth Byw Heb Ofn. Oherwydd diffyg capasiti neu adnoddau, ni allai gwasanaethau lloches na gwasanaethau yn y gymuned ddarparu gwasanaeth i ddiwallu'r cynnydd yn y galw, ac arweiniodd hyn at dwf o 22% a 23% yn nifer y goroeswyr na allent gael cymorth gan y safleoedd hyn.

Roedd yna hefyd gynnydd sylweddol yn nifer y goroeswyr y bu'n rhaid gwrthod lloches iddynt gan na ellid diwallu eu hanghenion cymorth arbenigol – sef cynnydd o 61% yn achos anghenion cymorth ynghylch iechyd meddwl, a chynnydd o 27% ar gyfer anghenion cymorth yn ymwneud â chaethiwed i sylweddau. O gymharu â'r flwyddyn flaenorol, roedd y cynnydd yn nifer y goroeswyr a wrthodwyd oherwydd diffyg mynediad neu fynediad cyfyngedig at arian cyhoeddus yn 29%.

% y cynnydd mewn goroeswyr a wrthodwyd o loches gan na ellid diwallu anghenion cymorth arbenigol:

61% IECHYD MEDDWL

27% DIBYNIAETH AR SYLWEDDAU

Mae yna ddiffyg darpariaeth arbenigol o ran staff, llochesi a gwybodaeth ar gyfer menywod anabl a allai fod ag anghenion hygyrchedd neu a allai fod yn ddibynnol ar eu camdriniwr gan mai ef yw eu gofalwr. Gall menywod ag anableddau dysgu a menywod niwroamrywiol hefyd eu canfod eu hunain yn cael gwasanaethau amhriodol neu wybodaeth anhygyrch, ond gallant hefyd fod mewn mwy o berygl o gamdriniaeth a thrais targededig. Mae troseddau casineb yn erbyn menywod traws yn bryder allweddol pellach, gyda hanner y bobl draws yn 2017 wedi profi trosedd neu ddigwyddiad casineb oherwydd eu hunaniaeth rhywedd.

Yn gyffredinol, mae sefydliadau arbenigol yn adrodd bod modelau ariannu byrdymor cyfredol yn parhau i achosi problemau o ran recriwtio a chadw staff, gyda hyn, yn ei dro, yn effeithio ar ansawdd mewn perthynas â pharhad cymorth a gofal. Mae cyllid byrdymor yn gwahardd prosesau cydgysylltu y mae mawr eu hangen ar gyfer gwaith ataliol ac ar gyfer ymateb i effeithiau negyddol hirdymor VAWDASV.

Ledled y DU, roedd Deddf Cam-drin Domestig 2021 yn gam sylweddol ymlaen, gyda llawer o'i darpariaethau yn berthnasol i Gymru. Mae'r Ddeddf yn creu diffiniad statudol trawslywodraethol o gam-drin domestig, ac yn cryfhau rheolau ar fathau penodol o VAWDASV. Ond mae'n cynnwys bylchau siomedig, yn fwyaf arwyddocaol y methiant i ddiogelu a chefnogi menywod nad oes ganddynt unrhyw hawl i arian cyhoeddus (NRPF).

Un o gyflawniadau pwysig y Ddeddf yw'r gydnabyddiaeth bod plant sy'n byw mewn cartrefi camdriniol yn ddioddefwyr yn eu rhinwedd eu hunain. Mae'n hanfodol bod y gydnabyddiaeth hon yn cael ei rhoi ar waith ledled gwasanaethau cymdeithasol a llysoedd Cymru. Mae ymchwil o'r Alban hefyd yn dangos y gall gwasanaethau cymdeithasol fethu cydnabod profiad mamau yng nghyd-destun ymyriadau cam-drin domestig. Gall y methiant i gefnogi mamau fod yn arbennig o ddifrifol yng nghyd-destun dim hawliau cyfreithiol i arian cyhoeddus (NRPF) gan ei fod yn golygu nad yw anghenion mamau am lety a diogelwch yn cael sylw.

Mae Strategaeth VAWDASV ar gyfer 2022-26, sef strategaeth Llywodraeth Cymru ar ei newydd wedd, yn cwmpasu gwelliannau sydd i'w croesawu, gan gynnwys ffocws ar atal, newid diwylliannol a gwaith cydweithredol ar draws llywodraethau a'r sectorau cyhoeddus a phreifat. Rydym yn rhoi croeso arbennig i'r ymrwymiad i groestoriadedd a chydgysylltu ledled meysydd polisi megis camddefnyddio sylweddau, tai, gwasanaethau cymdeithasol ac addysg. Ond yng ngoleuni'r diffyg parhaus o ran model ariannu cynaliadwy a'r cymorth truenus o annigonol i oroeswyr nad oes ganddynt hawliau cyfreithiol i arian cyhoeddus, mae cerdyn sgorio eleni yn cynnwys sgôr coch penodol i amlygu'r angen dybryd am gamau gweithredu yn y meysydd hyn.

ARGYMHELLION – DYLAI LLYWODRAETH CYMRU:

- **Flaenoriaethu'r broses o sefydlu model ariannu diogel a chynaliadwy ar gyfer gwasanaethau arbenigol VAWDASV, gan gynnwys ei gwneud yn glir sut y bydd cyllid ychwanegol o fudd i fenywod ag anghenion cymhleth, menywod anabl, menywod LGBTQ+, a gwasanaethau arbenigol 'gan ac ar gyfer' fenywod hil-ddiffiniedig;**
- **Sicrhau bod yr ymrwymiad i weithio ar y cyd ledled camddefnyddio sylweddau, tai, gwasanaethau cymdeithasol ac addysg yn cael ei adlewyrchu ar lawr gwlad, yn ymestyn i'r system gyfreithiol, ac yn gefnogol yn hytrach na chosbedigol i famau sy'n gadael camdriniaeth;**
- **Datblygu datrysiad Cymreig ar fyrder i gefnogi goroeswyr nad oes ganddynt unrhyw hawl i arian cyhoeddus, neu hawl gyfyngedig yn unig;**
- **Darparu gwybodaeth gynhwysfawr a pherthnasol, mewn amrywiaeth o fformatau, am yr ystod lawn o wasanaethau sydd ar gael i helpu dioddefwyr a goroeswyr i lywio system dameidiog y gwasanaethau presennol;**
- **Sicrhau bod ymrwymiad y Strategaeth VAWDASV i groestoriadedd yn cael ei sefydlu mewn modd ystyrlon er mwyn sicrhau bod llais goroeswyr sydd wedi'u hymyleiddio yn gallu bwydo i mewn ar y lefel uchaf.**

MYND I'R AFAEL AG ANGHYDRADDOLDEB IECHYD RHYWEDD

SGÔR: COCH

Prin iawn y mae'r sefyllfa ynghylch iechyd menywod wedi gwella ers y cerdyn sgorio diwethaf. Mae menywod yn parhau i fod yn fwy tebygol o fod â chyflwr iechyd hirdymor, yn fwy tebygol o roi sgôr megis "drwg" neu "wael iawn" i'w hiechyd yn gyffredinol, ac yn fwy tebygol o adrodd bod iechyd gwael yn cyfyngu ar eu gweithgareddau dyddiol. Mae cyfyngiadau COVID-19 wedi gwaethygu anghydraddoldebau iechyd a oedd eisoes yn

Canfu astudiaeth yn 2020 mai bwlch iechyd menywod y DU oedd y mwyaf ymhlith yr G20.

bodoli, ac wedi lleihau mynediad at ofal iechyd fwy fyth gan i driniaethau gael eu gohirio a chan fod y rhestrau aros gryn dipyn yn hirach.

Er bod y pandemig wedi gwaethygu'r bwlch, nid aethpwyd i'r afael o hyd â'r ffactorau sy'n sail iddo. Mae oedi cyn cael diagnosis a gofal yn fwy tebygol yn achos menywod, a hynny ledled ystod o gyflyrau, yn cynnwys trawiad ar y galon. Mae eu problemau iechyd yn parhau i gael diagnosau anghywir neu eu diystyru, a hynny oherwydd cyfuniad o ragfarn anymwybodol a'r ffaith bod symptomau cythryblus megis poen yn y pelfis, symptomau iechyd meddwl sy'n cael eu cyfryngu â hormonau, neu chwiwiau poeth yn cael eu normaleiddio. Canfu astudiaeth yn 2020 mai bwlch iechyd menywod y DU oedd y mwyaf ymhlith yr G20, sef y gwledydd â'r economïau mwyaf yn y byd. Ledled Cymru a'r DU, gall hyfforddeion meddygol dreulio cyn lleied â chwe wythnos ar iechyd menywod yn ystod cwrs tair blynedd.

Roedd adroddiad yn 2019 gan Goleg Brenhinol yr Obstetryddion a'r Gynaecolegwyr (RCOG) yn argymell y dylid creu cynllun iechyd menywod ledled y DU i fynd i'r afael â'r meysydd angen nad ydynt yn cael eu diwallu. Mae gwaith o'r fath wedi cael ei gwblhau yn yr Alban ac wedi hen ddechrau yn Lloegr. Ym mis Mai 2022, bu i Lywodraeth Cymru ymrwymo i wneud yr un peth, gan gyhoeddi cynllun 10 mlynedd ar iechyd menywod i'w gyhoeddi yn yr hydref. Mae hwn yn arwydd cadarnhaol gan fod dirfawr angen y cynllun i ddarparu rhaglen o wasanaethau iechyd ar gyfer pob cyfnod o fywyd sy'n canolbwyntio ar anghenion penodol menywod. Daw'r datganiad hwn ar ôl cyhoeddi Datganiad Ansawdd ar gyfer Iechyd Menywod, Merched a'r Rhai a Bennwyd yn Fenywaidd ar eu Genedigaeth. Mae'r datganiad, a gafodd ei gydgynhyrchu gan glymblaid o gleifion, clinigwyr, cyrff proffesiynol ac elusennau iechyd yn rhoi trosolwg rhagorol o'r hyn y mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru ei wneud er mwyn sicrhau cynnydd gwirioneddol o ran mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd rhwng y rhywiau.

Ymchwil ac Addysg

Mae menywod yn parhau i fod heb gynrychiolaeth ddigonol mewn ymchwil feddygol, elfen sy'n arwain at ddiffyg dealltwriaeth glinigol o'r modd y mae cyflyrau'n effeithio arnynt mewn modd gwahanol. Yn achos modelau diagnostig ar gyfer cyflyrau sy'n effeithio ar fenywod a dynion, rhaid rhoi'r gorau i'w seilio'n unig ar symptomeg dynion (er enghraifft clefyd y galon, trawiad ar y galon, awtistiaeth, ymlediad aortaidd yn yr abdomen) ac ar gyrff gwyn (er enghraifft brech ar y croen, clefyd y deintgig, clefyd melyn). Mae gan Lywodraeth Cymru a chwmnïau sy'n cynnal treialon clinigol gyfrifoldeb i sicrhau bod y treialon hyn yn recriwtio niferoedd cyfartal o fenywod a dynion, a nifer cymesur o gefndiroedd ethnig gwahanol.

Mae menywod yn parhau i fod heb gynrychiolaeth ddigonol mewn ymchwil feddygol

Yn dilyn lansio'r Cynllun Gweithredu Strategol ar gyfer Urddas Mislif, mae Llywodraeth Cymru wedi cymryd camau cadarnhaol i sicrhau bod y mislif yn cael ei ddeall, ei dderbyn a'i normaleiddio. Aeth ati i lansio'r wefan Mislif Fi, sef adnodd iechyd y mislif ar-lein i bobl ifanc, a phennodd bod iechyd a llesiant mislifol gydol oes yn elfen orfodol o'r Cwricwlwm i Gymru newydd. Rhaid i'r ffocws 'nawr fod ar fonitro ansawdd yr addysgu hwnnw i sicrhau bod hyn yn cael ei ddarparu mewn modd

cyson a chynhwysol sy'n chwalu mythau ac yn annog didwylledd yn hytrach nag atgyfnerthu tabŵs.

Mynediad at Ofal Iechyd

Dylai fod gan bob menyw yng Nghymru fynediad cyfartal at y gwasanaethau gofal iechyd y mae arni eu hangen, ni waeth beth fo'i lleoliad daearyddol nac unrhyw elfennau demograffig eraill. Yn anffodus, nid dyma'r realiti o hyd i lawer, gan gynnwys menywod anabl, menywod hil-ddiffiniedig a phobl traws. Pobl anabl oedd 68% o'r holl farwolaethau a oedd yn gysylltiedig â COVID-19 ddechrau 2020, ac nid oedd 63% o fenywod anabl wedi mynd i'w hapwyntiad sgrinio serfigol oherwydd eu hanabledd. Mae menywod du dros bedair gwaith yn fwy tebygol o farw wrth eni plant ac o farw o ganlyniad i gysylltiad â COVID-19 na menywod gwyn. Roedd menywod o gefndir ethnig Bangladeshaidd, Pacistanaidd a chymysg hefyd mewn mwy o berygl yn ystod y pandemig o farw o ganlyniad i gysylltiad â COVID-19. Mae amseroedd aros ar gyfer apwyntiadau cychwynnol yn yr unig glinig hunaniaeth rhywedd yng Nghymru yn amrywio o ddwy flynedd i ddwy flynedd a hanner; mae hyn yn golygu nad oes gan lawer o bobl draws ac anneuaidd fynediad at wasanaethau hanfodol. Mae llawer o ddynion traws yn dweud bod dod o hyd i fynediad i wasanaethau gynaecolegol yn heriol iawn gan fod negeseuon yn aml wedi'u hanelu at fenywod cydryweddol.

Nid yw gwybodaeth bob amser ar gael mewn fformatau hygyrch nac mewn iaith gynhwysol

Nid yw gwybodaeth bob amser ar gael mewn fformatau hygyrch nac mewn iaith gynhwysol. Mae angen gwella dealltwriaeth gymdeithasol a diwylliannol, a herio rhagfarn anymwybodol ymhlith gweithwyr proffesiynol. Mae hefyd yn ofynnol darparu hyfforddiant i sicrhau bod mynediad cyfartal yn cael ei ddarparu i bob menyw trwy brosesau cyfathrebu priodol.

Mae gofal mamolaeth wedi bod yn brofiad anodd i lawer o fenywod yn ystod y pandemig, ac mae wedi cael effeithiau difrifol ar iechyd meddwl mewn rhai achosion. Er bod rhai byrddau iechyd wedi mynd ati'n gyflym i ddileu cyfyngiadau ar ymweliadau ag unedau mamolaeth, roedd eraill wedi eu cadw tan fis Chwefror 2022, ac, mor ddiweddar â mis Ebrill 2022, roedd yna fenywod yn mynd trwy brosesau cymell y geni ar eu pen eu hunain. Mae materion staffio mewn gofal mamolaeth wedi gwaethygu o ganlyniad i'r pandemig. Rhaid i'r broblem hon gael ei datrys, a dylid yn ogystal fynd i'r afael â chyfradd y bydwragedd sy'n gadael y proffesiwn ar hyn o bryd.

Yn 2022, agorwyd yr uned mam a baban amenedigol gyntaf ym Mae Abertawe. Mae hwn yn gam hanfodol tuag at sicrhau y gall menywod gael cymorth iechyd meddwl arbenigol heb iddynt gael eu hynysu oddi wrth eu babanod. Ond mae angen mwy o unedau i osgoi rhaniadau daearyddol a chaniatáu i fenywod aros yn agos at eu rhwydweithiau cymorth.

Nid oes yna uned camesgoriad reolaidd, benodedig yng Nghymru o hyd i fynd i'r afael â'r lefel uchel o drallod a diffyg cymorth y mae llawer o fenywod yn ei brofi yn y sefyllfa hon. Mae diffyg o ran y ddarpariaeth hon yn effeithio'n arbennig ar fenywod du, sydd 40% yn fwy tebygol o gamesgor na menywod gwyn.

CERDYN SGORIO FFEMINISTAIDD 2022

10% *Nifer y menywod o oedran atgenhedlol y mae Endometriosis yn effeithio arnynt*

9 *Nifer y blynyddoedd y mae'n ei gymryd i gael diagnosis yng Nghymru*

Nid yw cyflyrau iechyd menywod yn cael blaenoriaeth o hyd yn system gofal iechyd Cymru. Mae endometriosis yn effeithio ar 10% o fenywod o oedran atgenhedlu yn y DU. Cymru sydd â'r cyfnod hiraf o amser, sef naw mlynedd, o ran gwneud diagnosau ar gyfer endometriosis yn y DU. Mae recriwtio nyrsys endometriosis arbenigol ym mhob bwrdd iechyd yn gam pwysig ymlaen, ond mae angen gwneud mwy i leihau amseroedd gwneud diagnosis a chefnogi menywod sy'n byw ag endometriosis.

Oherwydd diffyg hyfforddiant proffesiynol, yn ogystal ag addysg gyhoeddus, mae mynediad at wasanaethau menopos priodol yn parhau i fod yn loteri cod post i lawer o fenywod yng Nghymru. Er bod niferoedd cynyddol o bresgripsiynau therapi adfer hormonau (HRT) yn awgrymu peth gwelliant mewn dealltwriaeth gyhoeddus a phroffesiynol, mae prinder HRT yn ddiweddar wedi arwain at bryder eithafol i fenywod, gyda rhai yn gorfod cyfyngu ar eu defnydd o'r therapi neu fenthyg meddyginiaeth gan ffrindiau. Mae cyhoeddi Protocol Prinder Difrifol (SSP), sef protocol i ganiatáu hyblygrwydd i fferyllwyr fynd ati mewn modd diogel i amnewid cynhyrchion y mae galw mawr amdanynt am ddewisiadau amgen priodol, wedi helpu'r sefyllfa, ac mae grwp gorchwyl a gorffen y menopos i'w groesawu.

Roedd symptomau mwyfwy difrifol a diffyg mynediad at driniaeth o bryder mawr i fenywod a oedd yn byw â chyflyrau iechyd cronig neu reolaidd yng Nghymru, ochr yn ochr ag iechyd meddwl a oedd yn gwaethygu. Yn gyffredinol, roedd menywod yng Nghymru yn profi lefelau gwaeth o broblemau iechyd meddwl na dynion ar ôl i'r pandemig ddechrau, a hynny oherwydd materion megis ansicrwydd ynghylch gwaith, rheoli gofal plant ac addysgu gartref, arian, a natur yr argyfwng ei hun. Roedd hyn mewn cyfnod pan oedd un o bob pump o bobl yng Nghymru yn adrodd nad oeddent yn gallu cael y cymorth iechyd meddwl yr oedd arnynt ei angen. Mae angen ymchwil pellach i ddeall effaith hyn yn llawn yn yr hirdymor, ond nid yw'r sefyllfa'n debygol o wella i lawer o fenywod sydd bellach yn dioddef o dan bwysau parhaus yr argyfwng costau byw.

Roedd symptomau mwyfwy difrifol a diffyg mynediad at driniaeth o bryder mawr i fenywod a oedd yn byw â chyflyrau iechyd cronig neu reolaidd yng Nghymru.

ARGYMHELLION – DYLAI LLYWODRAETH CYMRU:

- **Flaenoriaethu'r gwaith o ddatblygu a gweithredu cynllun iechyd menywod a merched ar gyfer Cymru sy'n cael ei lywio gan ddatganiad ansawdd y Glymblaid Iechyd Menywod a'i lunio ar y cyd â menywod sydd â phrofiad byw o gyflyrau iechyd amrywiol;**
- **Buddsoddi mewn ymchwil o ansawdd uchel i iechyd menywod a thriniaethau ar eu cyfer, a sicrhau bod yna raniad o 50:50 rhwng y rhywiau mewn treialon clinigol yng Nghymru;**

- **Gwneud y menopos yn destun ymgyrch benodol gan Iechyd Cyhoeddus Cymru, a sicrhau bod arbenigwr menopos ar gael ym mhob meddygfa yng Nghymru;**
- **Agor o leiaf ddau glinig penodol yng Nghymru ar gyfer camesgoriadau rheolaidd;**
- **Agor uned mam a baban amenedigol yng Ngogledd Cymru;**
- **Gwella gofal iechyd endometriosis yng Nghymru trwy gyfres gynhwysfawr a chyfoes o ganllawiau, ymgyrchoedd meithrin ymwybyddiaeth y cyhoedd, a thrwy ddyrannu cyllid priodol;**
- **Cynyddu cyllid ar gyfer Gwasanaeth Rhywedd Cymru;**
- **Sicrhau bod pob ymarferydd gofal iechyd sy'n delio â chleifion yn cael hyfforddiant gorfodol, a bod hwnnw'n cynnwys cyflyrau a phrosesau iechyd penodol mewn perthynas ag anghenion iechyd pobl â nodweddion gwarchodedig;**
- **Gwella trefniadau casglu data a darpariaethau iechyd meddwl er mwyn deall a mynd i'r afael ag effaith hirdymor y pandemig ar iechyd meddwl menywod yng Nghymru.**

CYDNABYDDIAETHAU

Hoffem gydnabod yr amser a'r arbenigedd a roddwyd i ni gan y canlynol:

Anabledd Cymru

Anabledd Dysgu Cymru

Bawso

Canolfan Materion Rhyngwladol Cymru

Chwarae Teg

Clymblaid Ffoaduriaid

Cymdeithas Diwygio Etholiadol Cymru

Cymorth i Ferched Cymru

Cyngor Hil Cymru

Gofalwyr Cymru

Hwb Cymru Africa

Leah Hibbs, Ymchwilydd a Darlithydd Gwyddorau Cymdeithasol

Panel Cynghori Is-Sahara

Prosiect y Partner Geni

Sam Gadsden, Gweithiwr Geni Annibynnol a gweithiwr eiriolwr a chymorth VAWDASV gwirfoddol

Sefydliad Bevan

Stonewall Cymru

Triniaeth Deg i Ferched Cymru

Ymchwiliwyd ac ysgrifennwyd gan Laura Shobiye, ymchwilydd PhD
Golygwyd gan Dr Jessica Laimann, RhCM Cymru

METHODOLEG

Yn achos pob maes polisi, bu i ni ystyried datganiadau perthnasol Llywodraeth Cymru, y Rhaglen Lywodraethu, deddfwriaeth, polisïau ac ymarfer; archwilio tystiolaeth gan arbenigwyr ym mhob maes; dadansoddi ystadegau lle'r oeddent ar gael; a siarad ag arbenigwyr ym mhob un o'r meysydd. Rydym yn ddiolchgar iawn i bawb a rannodd eu hamser, eu gwybodaeth a'u data. Roeddem wedi sgorio pob maes gan ddefnyddio system goleuadau traffig (coch, oren a gwyrdd), gan ddangos lefel y cynnydd tuag at gydraddoldeb i fenywod a merched yng Nghymru.

YNGHYLCH RHCM CYMRU

Gweledigaeth RhCM yw Cymru sy'n rhydd o wahaniaethu rhwng y rhywiau. Ymunwch â'n clymblaid i helpu i gyflawni'r weledigaeth hon.

https://wenwales.org.uk/cy/ymuno-a-ni/
Rhif yr elusen: 1145706
Rhif y Cwmni: 07891533

GWYBODAETH AM OXFAM

Yn Oxfam, rydym yn rhoi menywod wrth wraidd popeth a wnawn i geisio dod ag anghyfiawnder tlodi i ben, a hynny am byth.

https://oxfamapps.org/cymru/
Rhif yr elusen: 202918

Cyhoeddwyd gan: Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod (RhCM) Cymru ac Oxfam Cymru

Cyfeiriwch at yr adroddiad hwn fel a ganlyn: "RhCM Cymru ac Oxfam Cymru, Cerdyn Sgorio Ffeministaidd 2022, Tracio camau gweithredu Llywodraeth Cymru i hybu hawliau menywod a chydraddoldeb rhwng y rhywiau"

© Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod Cymru 2022 a © Oxfam Cymru 2022.

Cyhoeddwyd gan Oxfam GB ar gyfer Oxfam Cymru o dan
ISBN: 978-1-78748-943-1 ym mis Gorffennaf 2022 DOI: 10.21201/2022.9431
Oxfam GB, Oxfam House, John Smith Drive, Cowley, Rhydychen, OX4 2JY, DU

OXFAM
CYMRU

WEN
Wales
Cymru